

Darllenwch y dudalen hon cyn llenwi'r ffurflen – bydd yn eich helpu i'w llenwi'n gywir. Defnyddiwch ffurflen wahanol ar gyfer pob unigolyn sydd wedi talu costau teithio neu sydd wedi cael costau teithio wedi'u talu ar ei ran. Mae **Rhan 4** yn dweud wrthyhch ble i anfon y ffurflen ar ôl ei llenwi. Cyn i chi wneud hynny, rhaid i chi lofnodi a dyddio'r datganiad.

BETH ALLWCH CHI WNEUD CAIS AMDANO?

Sylwer

Gallai'r wybodaeth ar y ffurflen hon gael ei rhoi yn gyfrinachol i gyrff cyhoeddus eraill i weld a ydych yn gymwys, ac i atal neu ddarganfod twyll. Gall gwybodaeth ffug arwain at erlyniad neu achos cyfreithiol.

Os cewch eich atgyfeirio **am driniaeth y GIG o dan ofal ymgynghorydd**, a chithau'n teithio i gael y driniaeth honno, gallwch wneud cais am gymorth â'ch costau teithio gan eich bod ar incwm isel.

Os oes angen cymorth arnoch gyda chostau teithio a'ch bod chi:

- o dan 16 oed – dylai'ch rhiant/rhieni lenwi'r ffurflen hon – eu hincwm nhw sy'n cyfrif
- yn 16 oed neu'n hŷn – llenwch y ffurflen eich hunan – eich incwm chi sy'n cyfrif

Mae'n bosibl hefyd y bydd angen ichi gyflwyno ffurflen gais HC1W (gweler rhan 4). **Os ydych wedi talu ffioedd iechyd eraill y GIG** rhaid ichi ddefnyddio'r ffurflen gais ar gyfer y ffioedd yr ydych wedi'u talu. Mae ffurflenni ar wahân ar gyfer pob ffi (er enghraifft, mae un ar gyfer ffioedd optegol ac un arall ar gyfer ffioedd deintyddol y GIG).

NI ELLIR DERBYN EICH CAIS...

Os oedd eich cyfalaf (h.y. cyfanswm eich cynilion) yn fwy na'r terfyn ar y dyddiad y gwnaethoch dalu (oni bai fod eich enw ar Dystysgrif Eithrio Credyd Treth y GIG neu fod gennych hawl i Dystysgrif o'r fath). £16,000 yw'r terfyn (neu £24,000 ar gyfer pobl sy'n byw'n barhaol mewn cartref gofal).

SUT I WNEUD CAIS AM AD-DALIAD AR RAN RHYWUN ARALL

Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon ar ran rhywun nad yw'n medru gwneud hynny drosto'i hunan am resymau corfforol, gofynnwch iddo ef/hi ddweud wrthyhch beth i'w ysgrifennu. Yna, dylai'r unigolyn hwnnw lofnodi neu wneud marc yn **Rhan 4**. Fodd bynnag, os ydych yn llenwi'r ffurflen ar ran rhywun ag anawsterau dysgu neu salwch sy'n eu hatal rhag rheoli eu materion eu hunain, chi fydd yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod yr wybodaeth yn gywir. Dylech lofnodi'r ffurflen eich hunan yn **Rhan 4**.

TERFYN AMSER AR GYFER GWNEUD CAIS

Rhaid ichi sicrhau bod y ffurflen hon yn cyrraedd y swyddfa berthnasol a nodir yn **Rhan 4** **o fewn 3 mis** i'r dyddiad y gwnaethoch dalu'r ffioedd. Os ydych yn gwneud cais ar ôl 3 mis, bydd yn rhaid i Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG benderfynu a oedd rheswm da dros wneud hynny cyn y gellir derbyn y cais. Anfonwch esboniad ysgrifenedig gyda'ch cais.

RHAGOR O WYBODAETH AM AD-DALIADAU

Rhoddir rhagor o wybodaeth am gael ad-daliadau yn y daflen HC11W "Help gyda Chostau Iechyd" sydd ar gael trwy ffonio 0345 603 1108 neu ar-lein yn www.healthcosts.wales.nhs.uk. Os oes gennych ragor o gwestiynau neu os oes angen help arnoch i lenwi'r ffurflen hon, gallwch siarad ag ymgynghorydd yn Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ar 0300 330 1343.

Rhan 1

MANYLION Y CLAF

Defnyddiwch y rhan hon o'r ffurflen i roi manylion am y claf: efallai mai chi yw'r claf, neu'r unigolyn yr ydych yn gwneud cais ar ei ran.

Cyfenw:

Enwau eraill:

Teitl (Mr/Mrs/Miss/Ms/Arall):

Dyddiad Geni: / /

Rhif Yswiriant Gwladol:

Cyfeiriad:

Cod post:

Rhif ffôn yn ystod y dydd: ()

Rhaid i hwn fod yn rhif ffôn yr unigolyn sy'n llofnodi Rhan 4

Enw'ch Bwrdd Iechyd Lleol

Rhan 2

MANYLION Y COSTAU TEITHIO A DALWYD

SYLWER

Anfonwch unrhyw docynnau neu dderbynebau tanwydd atom

Rwy'n gwneud cais am ad-daliad o

£

am deithio i gael triniaeth y GIG o dan ofal ymgynghorydd, – rhowch fanylion isod ac anfonwch unrhyw docynnau neu dderbynebau tanwydd atom.

Dyddiad(au)'r ymweliad

/ / / / / / / /

Swm a dalwyd gennych am yr ymweliad hwnnw

£ £ £ £

Os bu rhaid i rywun deithio gyda chi i'ch helpu, nodwch y swm a dalwyd ganddo ef/hi.

£ £ £ £

Os oes angen mwy o le arnoch i nodi manylion teithiau eraill, rhestrwch nhw ar ddarn o bapur ar wahân a rhoi'r dyddiadau, y swm a dalwyd ac enw a chyfeiriad y claf cyn atodi'r papur i'r ffurflen hon. Os nad ydych yn siŵr o'r dyddiadau, holwch yr ysbyty.

Rhif ysbyty'r claf

Adran yr aethoch iddi

Rhan 3

GWYBODAETH ARALL SYDD EI HANGEN ARNOM

Enw'r ymgynghorydd a wnaeth eich atgyfeirio:

Enw, cyfeiriad a rhif ffôn yr ysbyty neu'r man triniaeth **yn llawn**.

Enw:

Cyfeiriad:

Cod post:

Rhif ffôn: ()

Rhan 4

INCWM Y CLAF PAN DALWYD Y COSTAU

Ticiwch y blwch isod sy'n berthnasol i'r cyfnod pan dalwyd y costau, a rhowch yr wybodaeth sydd ei hangen arnom.

Grŵp 1

Mae gen i bensiwn Rhyfel ac rwy'n cael triniaeth am fy anabledd pensiynadwy. Anfonwch y ffurflen hon i'r: Service Personnel and Veterans Agency, Norcross, Blackpool FY5 3WP.

Grŵp 2

Roedd fy enw ar dystysgrif GIG HC2W neu HC3W Enw'r unigolyn ar y dystysgrif oedd: Anfonwch y ffurflen hon i: NHS Business Services Authority, Bridge House, 152 Pilgrim Street, Newcastle-upon-Tyne NE1 6SN

Os ydych yn 16, 17 neu 18 oed ac mewn addysg amser llawn, ewch i Grŵp 4 isod.

Grŵp 3

Roeddwn i'n cael un o'r budd-daliadau/credydau a restrir isod.

Rwy'n bartner neu'n blentyn/person ifanc dibynnol rhywun a oedd yn cael un o'r budd-daliadau/credydau hyn. Enw'r unigolyn oedd yn cael y budd-dal/credyd oedd:

Os nad yr unigolyn hwn oedd y claf, nodwch ei:

<input type="text" value="/"/>	<input type="text" value="/"/>	<input type="text" value=""/>	neu	<input type="text" value=""/>	<input type="text" value=""/>	<input type="text" value=""/>	<input type="text" value=""/>	<input type="text" value=""/>	
ddyddiad geni				ei rif Yswiriant Gwladol					

Y Credyd Cynhwysol – anfonwch y ffurflen hon i'ch Canolfan Byd Gwaith leol

Cymhorthdal Incwm – anfonwch y ffurflen hon i'ch Canolfan Byd Gwaith leol

Lwfans Ceisio Gwaith sy'n Seiliedig ar Incwm – anfonwch y ffurflen hon i'ch Canolfan Byd Gwaith leol

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n Seiliedig ar Incwm – anfonwch y ffurflen hon i'ch Canolfan Byd Gwaith leol

Credyd Gwarant y credyd Pensiwn – anfonwch y ffurflen hon i'r Ganolfan Bensiynau a wnaeth ymdrin â'ch cais (nid yw Credyd cynilion y Credyd Pensiwn yn gymwys)

Mae eich enw ar Dystysgrif Eithrio Credyd Treth y GIG neu mae gennyh hawl i Dystysgrif o'r fath Anfonwch y ffurflen hon i NHS Business Services Authority, Bridge House, Newcastle-upon-Tyne NE1 6SN

Grŵp 4

Nid wyf yng ngrwpiau 1 i 3 ond hoffwn wneud cais i gael ad-daliad am gostau teithio.

Rwy'n 16, 17 neu 18 oed ac mewn addysg amser llawn ac yn dymuno gwneud cais i gael ad-daliad am gostau teithio.

Anfonwch y ffurflen hon i NHS Business Services Authority, Bridge House, 152 Pilgrim Street, Newcastle-upon-Tyne NE1 6SN. Bydd angen ichi lenwi ffurflen gais HC1W hefyd, sydd ar gael trwy ffonio 0345 603 1108.

DATGANIAD A LLOFNOD

RHYBUDD

Gall gwybodaeth ffug arwain at achos sifil neu gyfreithiol. Os ydych yn llofnodi ar ran rhywun arall, chi fydd yn gyfrifol am yr wybodaeth a ddarperir.

Rwy'n datgan bod yr wybodaeth yr wyf wedi'i rhoi ar y ffurflen hon yn gywir a chyflawn ac rwy'n deall, os byddaf yn rhoi gwybodaeth ffug yn fwriadol, y gallwn fod yn agored i erlyniad a/neu achos sifil.

Rwy'n rhoi caniatâd i'r wybodaeth berthnasol ar y ffurflen hon gael ei datgelu i, a chan, Gyllid a Thollau ei Mawrhydi ac Awdurdodau Lleol, at ddibenion gwirio.

Rwyf hefyd yn rhoi caniatâd i'r wybodaeth ar y ffurflen hon gael ei datgelu i NHS Protect, is-adran yn Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG, er mwyn atal, canfod, ymchwilio ac erlyn twyll a gweithgarwch anghyfreithlon arall sy'n effeithio ar y GIG.

Dyma fy nghais i gael ad-daliad am y costau teithio a restrir yn Rhan 2

Os ydych yn llofnodi eich hunan

4A Llofnod: Dyddiad:

Dyma gais ar ran yr unigolyn a enwyd yn Rhan 1 i gael ad-daliad am y costau teithio a restrir yn Rhan 2

Os ydych yn llofnodi ar ran rhywun arall

4B Llofnod: Dyddiad:

Enw: (mewn priflythrennau)

Cyfeiriad:

Cod post:

Os cafwyd y driniaeth yn un o ysbytai'r GIG dylid anfon y ffurflen i'r ysbyty honno (a enwyd yn Rhan 3).

Os cafwyd y driniaeth yn rhywle arall (gan gynnwys ysbyty preifat) dylid anfon y ffurflen i'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ardal leol y claf (a enwyd yn Rhan 1).

ODDI WRTH

Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG neu un o'r cyrff a restrir yn Rhan 4:

I'w defnyddio gan y cyrff a restrir yn Rhan 4

Rwy'n cadarnhau bod y claf a enwir yn Rhan 1 o'r ffurflen hon â hawl i:

Ad-daliad llawn o'r costau teithio angenrheidiol a dalwyd mewn unrhyw un wythnos ar neu ar ôl / /

Ad-daliad o'r gwahaniaeth rhwng £ a'r costau teithio angenrheidiol a dalwyd mewn unrhyw un wythnos ar neu ar ôl / /

Dangosir y swm/symiau a dalwyd ar y derbynebau a atodir.

Rwy'n cadarnhau bod y cais hwn wedi dod i law o fewn y terfyn amser o 3 mis.

Talwch y swm priodol i'r claf a enwir yn Rhan 1 y ffurflen hon.

Llofnod:

Dyddiad: / /

Enw:
(mewn priflythrennau)

STAMP AWDURDODI

STAMP CYFEIRIAD Y SWYDDFA

CYFEIRNOD

TÎM

LLEOLIAD

NODIADAU